

YMCA Diploma in Exercise and Fitness Instructing Level 2



Yn gwyno

Nod y cymhwyster hwn yw darparu'r wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen ar ddysgwyr sydd â diddordeb mewn ffitrwydd, iechyd a gweithgareddau campfa i'w galluogi i ddilyn gyrfa fel Hyfforddwr Ffitrwydd yn y diwydiant iechyd a ffitrwydd. Bydd y cwrs hwn hefyd yn eich caniatáu i symud ymlaen i'r cymhwyster Hyfforddiant Personol Lefel 3 (Ymarferydd).

Yn ogystal â'r dystysgrif mewn Hyfforddi Campfa, byddwch hefyd yn cyflawni Dyfarniad lefel 2 YMCA mewn Ymgysylltu Plant a Phobl Ifanc mewn Chwaraeon a Gweithgaredd Corfforol a Thystysgrif Lefel 2 YMCA mewn Arwain Ymarfer Corff Grwp: Hyfforddiant Cylchol.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

...unigolion 16 mlwydd oed neu hyn.

...rhai sy'n dymuno symud ymlaen i ddysgu pellach yn y sectorau iechyd a ffitrwydd neu hamdden egniol.

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Cynnwys y cwrs

I gyflawni'ch Diploma Lefel 2 YMCA mewn Hyfforddi Campfa, rhaid i chi gwblhau'r uned ganlynol. Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gymeradwyo gan y Sefydliad Siartredig ar gyfer Rheoli Chwaraeon a Gweithgaredd Corfforol (CIMSPA). Byddwch yn canolbwyntio ar y canlynol:

Anatomi a ffisioleg ar gyfer hyfforddwyr ymarfer corff a ffitrwydd
Darparu profiad cwsmer cadarnhaol yn yr amgylchedd ymarfer corff
Rheoli ffordd o fyw ac ymwybyddiaeth iechyd
Deall cyflogaeth yn y sector iechyd a ffitrwydd
Datblygu chi eich hun
Ymwybyddiaeth iechyd meddwl a chymorth
Gweithio gyda phobl anactif
Gweithio yn y gymuned i hyrwyddo a chyflwyno rhaglenni gweithgaredd corfforol
Egwyddorion ymgysylltu plant a phobl ifanc mewn chwaraeon a gweithgaredd corfforol
Dealltwriaeth sylfaenol am ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc
Cynllunio chwaraeon a gweithgaredd corfforol ar gyfer plant a phobl ifanc
Cyflwyno chwaraeon a gweithgaredd corfforol i blant a phobl ifanc
Paratoi a chynllunio rhaglenni ar gyfer y gampfa
Cyfarwyddyd proffesiynol a darparu rhaglenni ar gyfer y gampfa
Egwyddorion cynllunio a chyflwyno sesiynau ymarfer corff grwp
Cynllunio a chyflwyno ymarfer cylchol grwp

Gofynion Mynediad

O leiaf 4 TGAU Gradd D neu uwch, gan gynnwys naill ai Mathemateg neu Gymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg, neu gymhwyster Diploma Lefel 1 priodol. Wedi dweud hynny, gellir ystyried y gofynion hyn ar sail unigolyn.

Gwybodaeth Ychwanegol